



Teitl:	Uwch Swyddog Cymorth Busnes
Lleoliad:	Ystwyth
Cyfarwyddiaeth:	Gwasanaethau Corfforaethol
Swydd Rhif:	BG11116
Cyflog:	Gradd 7 (£36,124 - £39,513 pro rata/y flwyddyn)
Oriau:	37
Contract:	Parhaol

Crynodeb Swydd

Daeth cyfle cyffrous ar gael ar gyfer unigolyn hyderus a phrofiadol i arwain un o'n Timau Cymorth Busnes. Gallai hon fod yr union swydd i chi os ydych yn ffynnu ar amrywiaeth. Mae'r swydd yn cynnig cyfle i weithio ar lefel weithredol a strategol ac arwain wrth ddatblygu systemau a sicrhau newid sy'n creu prosesau effeithiol a gweithlu ystwyth.

Hysbyseb Lawn

Mae gan yr Uwch Swyddog Cymorth Busnes rôl hanfodol wrth reoli'r hyb Rheoli Adfywio a Datblygu ar gyfer Cymorth Busnes. Bydd gan y swyddog gyfrifoldeb goruchwylio uniongyrchol am tua 9 o staff ynghyd ag arwain tîm ehangach o 14 ac yn cynnwys amrywiaeth o swyddogaethau ar gyfer cymorth gweithredol Timau Gwasanaethau Datblygu, Cofrestru Etholiadol ac Adfywio.

Bydd deiliad y swydd yn cydlynu cymorth busnes ar draws nifer o feysydd gyda phwyslais arbennig ar oruchwylio gweithrediadau cyffredinol dydd i ddydd gweinyddiaeth Rheoli Datblygu; bydd hyn yn cynnwys rheoli prosesu ceisiadau i'r Tîm Cynllunio, Rheoli Adeiladu a'n Timau Ystadau. Byddwch yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth i ddatblygu gwybodaeth o'r Awdurdod Cynllunio Lleol a rhoi cyngor/arweiniad i aelodau'r cyhoedd. Byddai profiad o ddefnyddio systemau GIS yn fanteisiol.

Bydd deiliad y swydd hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi datblygiad systemau a phrosesau ar draws y meysydd gwasanaeth ehangach, gan gymryd rôl arweiniol wrth reoli'r system iDox ar gyfer Cynllunio ochr yn ochr â systemau corfforaethol eraill.

Mae'r ystod o wasanaethau sy'n gweithredu o'r tîm hwn yn amrywiol ac mae llawer o newidiadau cadarnhaol wedi'u gwneud dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chyflwyno systemau newydd a ffordd gwahanol o weithio. Bydd deiliad y swydd llwyddiannus yn parhau i ymgorffori a gwella systemau presennol, gan ymgysylltu â chydweithwyr yn y

Gwasanaethau Corfforaethol fel rhan o adolygiadau gwasanaeth presennol a rhaglenni digidol.

Mae sgiliau cyfathrebu rhagorol yn hanfodol gyda'r deiliad swydd yn gorfod ymgysylltu â, a datblygu, perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda nifer o randdeiliaid ar draws y cyngor ar bob lefel, ac yn y pen draw gyda'r cyhoedd.

Mae profiad o reoli staff sy'n gweithio mewn amgylchedd ystwyth a gallu addasu llwyth gwaith eich hun a blaenoriaethau eraill yn hanfodol. Gall gofynion gweithredol y tîm Adfywio a Rheoli Datblygu newid yn gyflym, bydd angen i'r Swyddog Cymorth Busnes Uwch allu addasu i'r gofynion newidiol yn gyflym ac yn broffesiynol.

Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn cael ei gefnogi gan dîm ymroddedig a gwybodus, bydd presenoldeb rheolaidd mewn amgylchedd swyddfa yn cael ei ddisgwyl yn y rôl hon, fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei reoli yn unol ag asesiadau risg presennol a gofynion gwasanaeth.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg

Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.

Dyddiad Cau: 12eg Rhagfyr 2024

Dyddiad Cyfweiliadau: 10fed Ionawr 2025